

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Charsfield

Dyddiad yr arolygiad: 9 Ionawr 2024

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ebrill 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83577-899-9

© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	17
4.	Y camau nesaf .....	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Charsfield ar 9 Ionawr 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 21 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ond gan mai nifer bach o holiaduron a gwblhawyd gan staff, nid ydynt wedi'u cynnwys.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch ym mhob agwedd ar eu cyswllt â'r practis. Gwelsom fod systemau addas ar waith i oruchwyllo apwyntiadau'r cleifion, a bod y staff yn rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i driniaethau mewn modd amserol. Gwelsom fod polisiau cynhwysfawr ar waith i gefnogi hawliau a chydraddoldeb y cleifion a gwelsom enghreifftiau o addasiadau rhesymol a wnaed gan y staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl sylwadau a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol a dywedodd pob un ohonynt fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom bractis glân a diogel a oedd yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd y cyfarpar clinigol a'r eitemau clinigol aml dro mewn cyflwr da ac roedd y staff a oedd yn eu defnyddio wedi'u hyfforddi'n addas. Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal mewn modd diogel a dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y practis yn 'lân iawn' a bod y staff yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau perthnasol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella yn ymwneud â'r cyfarpar brys a nodiadau'r cleifion. Roedd y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cynnal radiograffau yn gadarn a gwelsom fod y darpariaethau diogelu a oedd ar waith ar gyfer plant ac oedolion yn gynhwysfawr.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff hyfforddiant gloywi cymorth cyntaf ei gynnal bob blwyddyn
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau eu cynnal ar yr holl gyfarpar brys yn wythnosol o leiaf
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau ar gyfer sicrhau cydsyniad cleifion yn gynhwysfawr.
- Roedd ystafelloedd ar wahân yn cael eu defnyddio ar gyfer camau 'glân' a 'budr' y broses ddihalogi.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau rheoli cadarn yn golygu bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol gan y rheolwyr. Roedd y staff a welsom yn siarad â chleifion yn gyfeillgar ac yn ystyriol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau ei hyfforddiant gorfodol, a chadarnhaodd y staff eu bod yn cael eu cefnogi i ymgymryd â gweithgareddau dysgu a datblygu. Gwnaethom nodi meysydd i'w gwella yn ymwneud â'r broses o asesu risg mewn perthynas â diffyg gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer aelodau o staff a fu'n gweithio yn y practis ers amser hir. Gwelsom hefyd fod angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod gweithgareddau archwilio a gweithgareddau datblygu tîm yn cael eu cynnal yn briodol. Roedd y broses o gasglu adborth gan gleifion ac ymateb iddo yn addas a gwelsom fod trefniadau ar waith i gasglu adborth anffurfiol gan gleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â diffyg cofnodion o wiriadau cyn cyflogi
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau eu cynnal mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd cofnodion manwl yn cael eu cymryd
- Roedd y broses sefydlu ar gyfer staff newydd yn gynhwysfawr.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r 21 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (20/21) neu'n 'dda' (1/21). Roedd rhai o'r sylwadau a gawsom am y gwasanaeth yn cynnwys y canlynol:

*“Tîm ardderchog sydd bob amser yn rhoi gofal deintyddol da.”*

*“Mae'r staff wrth y ddesg flaen yn gwrtais ac yn garedig iawn. Y practis hwn yw un o'r rhai gorau yng Nghymru.”*

*“Mae awyrgylch y practis yn dawel, yn gysurlon ac yn gyfeillgar.”*

*“Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar, yn wybodus ac yn barod i helpu.”*

*“Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt.”*

*“Mae'r gofal a'r driniaeth rwy'n eu cael yn y practis deintyddol hwn yn ardderchog.”*

*“Rwyf bob amser wedi cael gofal ardderchog.”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth briodol yn cael ei harddangos i'r cleifion ynglŷn â rhoi'r gorau i smygu, gofal deintyddol pediatrig a gofal dannedd gosod. Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael yn ddwyieithog, a dywedodd y staff wrthym y byddai fformatau eraill yn cael eu darparu ar gais. Gwelsom fod ffioedd gofal deintyddol i'w gweld yn glir wrth ddesg y dderbynfa ochr yn ochr ag enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld ar y drws ffrynt.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC ond un yn cytuno bod y staff wedi esbonio iechyd eu ceg iddynt mewn ffordd y gallent ei deall drwy gydol eu



hapwyntiad. Yn yr un modd, roedd pob un o'r cleifion ond un yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal addas ar sut i gynnal iechyd y geg da.

### **Gofal Urddasol a Pharchus**

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Gwelsom fod drysau solet â gwydr barugog ar y deintyddfeydd er mwyn cynnal cyfrinachedd y cleifion yn ystod triniaethau. Dywedodd y staff wrthym y byddai sgysiau cyfrinachol yn cael eu cynnal i ffwrdd o ddesg y dderbynfa a'r ardal aros. Roedd Codau Ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn y dderbynfa.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn teimlo bod y staff wedi gwrandao arnynt yn ystod eu hapwyntiad.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr hefyd eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylent ei wneud mewn argyfwng. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (17/21) yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth, a dywedodd dau glaf nad oedd hyn yn berthnasol iddynt.

Gwelsom fod prosesau cynllunio triniaethau ac opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion wedi cael gwybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Gwelsom fod system apwyntiadau foddhaol ar waith a oedd yn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol. Dywedodd y staff wrthym, er mai anaml yr oedd hynny'n digwydd, fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yr oedd angen apwyntiadau brys arnynt yn cael eu gweld o fewn 24 awr. Byddai apwyntiadau brys yn cael eu brysbennu dros y ffôn mewn ymgynghoriad â'r ymarferydd, lle bo angen.

Dyweddod y cleifion wrthym eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' (16/21) neu'n 'eithaf hawdd' (5/21) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Gwelsom fod gwybodaeth am wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau yn cael ei harddangos yn addas y tu allan i'r practis ac ar wefan y practis. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (18/21) y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom dystiolaeth gref fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Gwelsom fod posteri a thafenni dwyieithog yn cael eu harddangos i godi ymwybyddiaeth y cleifion, gan gynnwys y poster 'Iaith Gwaith'. Clywsom y staff yn cyfathrebu â'i gilydd yn ddwyieithog ac yn siarad ag un o'r cleifion yn Gymraeg.

Gallai cleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf gyfathrebu gan ddefnyddio adnoddau cyfieithu ar-lein. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn darparu dogfennau mewn fformatau neu ieithoedd gwahanol ar gais.

Cadarnhaodd yr ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg i holiadur AGIC i gleifion eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn siarad Cymraeg yn y practis. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion sy'n siarad Cymraeg (3/4) wrthym eu bod yn cael cyfle i siarad yr iaith, a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn eu dewis iaith.

### Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal drwy drefniadau addas. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys polisiâu cynhwysfawr a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn ymwneud â gweithdrefnau derbyn cleifion, anabledau cleifion a chleifion agored i niwed. Gwelsom fod cydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo drwy bolisiau a adolygwyd yn ddiweddar ar gyfle cyfartal a chydraddoldeb.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod mynediad i'r adeilad i bobl anabl y gyfyngedig. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn nodi'n glir y cyfyngiadau o ran hygyrchedd y practis o ganlyniad i oedran a chynllun allanol yr adeilad. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y byddai anghenion cleifion â gofynion mynediad yn cael eu diwallu gymaint â phosibl. Roedd toiled i bobl anabl yn y practis a deintyddfa ar y llawr gwaelod er mwyn cefnogi cleifion ag anawsterau symudedd. Dywedodd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr i holiadur AGIC (9/21) fod yr adeilad yn hygyrch. Dywedodd rhai o'r cleifion (9/21) fod y practis yn rhannol hygyrch, a dywedodd nifer bach nad oedd y practis yn hygyrch (2/21) neu eu bod yn 'ansicr' (1/21).

Gwelsom enghreifftiau lle roedd y practis wedi gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer aelodau o'r staff a dywedwyd wrthym fod y rhain ar waith ar gyfer cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod dewis rhagenwau cleifion trawsryweddol yn cael eu nodi ar y system cofnodion cleifion.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis mewn cyflwr addas i ddiwallu anghenion ei gleifion. Gwelsom fod yr adeilad yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd tri llawr i'r practis, ac roedd ardal aros a derbynfa fawr. Roedd y deintyddfeydd wedi'u lleoli ar y ddau lawr cyntaf, ac roedd y llawr uchaf wedi'i neilltuo i'r staff yn unig. Gwelsom fod yr holl ardaloedd yn cynnwys cyfarpar priodol ac yn addas at y diben.

Roedd amgylchedd y practis wedi'i oleuo'n ddiogel a'i wresogi a'i awyru'n gyfforddus. Clywsom y ffonau'n gweithio'n iawn a gwelsom fod cyfleusterau newid a loceri ar gael i'r staff.

Gwelsom fod y toiledau'n lân ac yn cynnwys cyfarpar addas a gweithredol, a bod arwyddion i gyfeirio'r cleifion iddynt. Roedd yr holl ddeintyddfeydd yn daclus ac yn drefnus. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol ac roedd niferoedd digonol o gyfarpar deintyddol aml dro i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio.

Gwnaethom nodi bod polisiâu ac asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn cynnal iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys polisi cynnal a chadw'r adeilad a gweithdrefnau wrth gefn brys cadarn. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwyr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u harddangos yn addas yn y practis.

Roedd arwyddion diogelwch tân wedi'u gosod o amgylch y practis, yn ogystal ag arwyddion dim smygu. Gwnaethom nodi bod contract cynnal a chadw cyfarpar tân boddhaol ar waith, a bod cyfarpar diffodd tân wedi'u gosod mewn manau priodol o amgylch y practis. Wrth edrych ar y cofnodion diogelwch tân, gwelsom y canlynol:

- Bod gwiriadau larymau tân ac archwiliadau diogelwch tân gweledol yn cael eu cwblhau'n fisol
- Bod gwiriadau cyfarpar diffodd tân yn cael eu cwblhau'n fisol
- Bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis
- Bod yr asesiad risg tân yn cael ei adolygu bob blwyddyn
- Bod y cyfarpar tân yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn drwy gontract cynnal a chadw
- Bod profion trydanol yn cael eu cwblhau bob blwyddyn.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad gwelsom nad oedd y goleuadau brys wedi cael eu profi yn ystod y profion trydanol blynyddol. Dywedodd y staff wrthym y dylai hyn fod wedi cael ei gwblhau gan y contractwr ond ei fod, yn ôl pob golwg, wedi cael ei golli yn ystod y profion diwethaf. Cafwyd sicrwydd bod y goleuadau brys yn gweithio ar y diwrnod wrth i'r staff brofi'r goleuadau ar gyfer yr arolygwyr. Gwnaethom hefyd edrych ar gofnodion o brofion goleuadau brys a gynhaliwyd fel rhan o'r gwiriadau diogelwch tân misol. Erbyn diwedd yr arolygiad, roedd apwyntiad wedi'i drefnu i brofi'r goleuadau brys.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl oleuadau brys eu profi'n flynyddol gan dechnegydd cymeradwy.**

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom bractis glân a oedd mewn cyflwr da, gan olygu bod modd ei lanhau'n effeithiol a rheoli heintiau. Gwelsom weithdrefnau atal a rheoli heintiau a dihalogi a rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer y deintyddfeydd a oedd wedi'u cwblhau'n addas, a oedd yn dangos bod holl ardaloedd y practis yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Gwelsom gyfleusterau hylendid dwylo addas a bod cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio'n briodol a'i newid yn aml.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y practis yn lân iawn. Roedd pob un o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn briodol.

Gwnaethom nodi bod dyfeisiau offer miniog yn cael eu defnyddio er mwyn atal anafiadau offer miniog. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y practis yn defnyddio gwasanaeth iechyd galwedigaethol preifat a'i fod yn dal i ddefnyddio'r gwasanaethau a oedd ar gael iddo drwy'r GIG.

Gwelsom brosesau dihalogi cadarn a oedd yn sicrhau bod cyfarpar aml dro ac argraffiadau yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n gywir. Roedd y prosesau'n cynnwys glanhau â llaw, baddon uwchsain ac awtoclafau a oedd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Gwnaethom nodi arferion da o ran y defnydd o ystafelloedd ar wahân i brosesu cyfarpar 'glân' a 'budr'. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar yr awtoclafau ac roedd cofnodion y cylchoedd yn cael eu hadolygu'n wythnosol. Fodd bynnag, ni welsom gofnodlyfr i gofnodi'r amserlen lanhau ar gyfer y baddon uwchsain.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff amserlenni glanhau'r practis eu cofnodi'n briodol.**

Gwelsom dystiolaeth yn y ffolder dynodedig fod y prosesau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael eu rheoli'n addas a bod asesiad risg

wedi'i gwblhau. Gwelsom hefyd fod holl wastraff y practis yn cael ei waredu drwy gcontract gwaredu gwastraff addas.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Gwelsom fod trefniadau a systemau priodol a diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Gwelsom weithdrefnau boddhaol i reoli'r broses o ddefnyddio, storio a rhoi meddyginiaethau. Gwnaethom nodi bod pad presgripsiwn y practis yn cael ei storio'n ddiogel. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom gofnod clir o'r meddyginiaethau a roddwyd; ynghyd â'r canllawiau addas a roddwyd i'r cleifion. Roedd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau ac ôl-ofal addas. Gwelsom fod poster y cynllun 'Cerdyn Melyn' wedi'i arddangos yn y dderbynfa er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion sut i gofnodi adweithiau andwyol i feddyginiaethau. Gwelsom hefyd fod adweithiau andwyol yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadebru cardio-anadlol yn ddiweddar a bod swyddog cymorth cyntaf yn y practis.

Gwelsom fod pecyn brys y practis yn gyflawn a bod polisiau addas ar waith i reoli argyfyngau yn ymwneud â chleifion yn ddiogel. Roedd y cyfarpar a'r eitemau cymorth cyntaf yn gyfredol a hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond ffiolau 10mg o Midazolam oedd ar gael yn y pecyn brys, yn hytrach na ffiolau 5mg neu 7.5mg, gan olygu nad oedd yn addas ar gyfer grwpiau oedran gwahanol. Er y rhoddyd sicrwydd i ni fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol mewn perthynas â'r mater hwn, pe bai argyfwng meddygol, gallai hyn ei gwneud hi'n anodd rhoi'r dos cywir i gleifion.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dosau a symiau addas o Midazolam ar gael fel bod modd ei roi'n gyflym mewn argyfwng.**

Gwnaethom nodi bod rhestr wirio gynhwysfawr ar waith i sicrhau bod yr holl gyfarpar brys yn addas ac yn barod i'w ddefnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y silindrau ocsigen a diffibriliwr y practis, a bod gwiriadau misol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar arall. Mae Cyngor Dadebru'r DU yn argymhell y dylid cynnal gwiriadau wythnosol ar bob darn o gyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau eu cynnal ar yr holl gyfarpar brys yn wythnosol o leiaf.**

## **Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod trefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Gwelsom fod polisiau'r practis yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru a bod arweinydd diogelu wedi'i enwi ynddo. Gwelsom fod siart lif ar gael yn hawdd er mwyn helpu'r staff wrth godi pryder

Amlinellodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y broses ar gyfer codi pryder yn gywir. Dywedodd y staff y byddent yn teimlo'n hyderus i godi pryder yn ymwneud â diogelu a'u bod yn teimlo y byddent yn cael eu cefnogi i wneud hynny. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed.

## **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod yr holl gyfarpar clinigol mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Roedd polisiau addas ar waith ar gyfer rheoli methiannau cyfarpar, a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar yn gywir.

Roedd y ffolder diogelu rhag ymbelydredd yn gyflawn ac roedd cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd a goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd wedi'u henwi ynddo. Gwelsom fod y rheolau lleol ar gael ac y gallai'r staff gael gafael arnynt yn hawdd, ynghyd â thystiolaeth eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion gwelsom fod yr holl driniaethau radiograffig wedi'u cofnodi'n gywir a bod y triniaethau wedi'u cynnal yn ddiogel. Gwnaethom nodi bod y cleifion wedi rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth cyn unrhyw amlygiad i ymbelydredd ac mai dim ond lle roedd angen y defnyddiwyd pelydrau-X. Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar radiograffeg.

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod triniaethau'n cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol a chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod ble i gael gafael ar gyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt. Fodd bynnag, ni welsom ddefnydd priodol o restr wirio, fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol, er mwyn atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig ddefnyddio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol fel mater o arfer da.**

### **Cofnodion Cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf a gwelsom fod y cofnodion clinigol yn cael eu cadw i safon briodol. Roedd y cofnodion yn cael eu storio ar system ddigidol a oedd yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a pholisi rheoli cofnodion cadarn. Gwelsom fod hen gofnodion papur yn cael eu storio mewn ystafell archif drefnus ac wedi'i chloi.

Gwnaethom nodi arferion da mewn perthynas â chwblhau ffurflenni cydsyniad cleifion cynhwysfawr a oedd hefyd yn rhan o becyn manylach ehangach i gleifion newydd.

Gwelsom fod cofnodion y rhan fwyaf o'r cleifion wedi'u diweddarau'n gynhwysfawr, ond gwnaethom nodi enghreifftiau lle roedd cofnodion y cleifion yn anghyflawn neu lle roedd gwybodaeth ar goll, gan gynnwys:

- Nid oedd profion sgrinio am ganser y geg wedi'u cofnodi yn yr un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt
- Nid oedd cynlluniau triniaeth ysgrifenedig wedi'u cofnodi yn yr un o'r cofnodion perthnasol
- Gwelsom dair enghraifft lle nad oedd pecyn cymorth seiliedig ar dystiolaeth "Delivering Better Oral Health" wedi'i roi ar waith
- Gwelsom dri chofnod arall lle nad oedd asesiadau risg wedi cael eu cofnodi ar gyfer traul dannedd
- Nid oedd cyfiawnhad dros ragnodi gwrthfotigau wedi'i gofnodi mewn dau o'r cofnodion perthnasol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.**

Gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi fel mater o drefn.**



# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod strwythurau rheoli clir ar waith er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol. Gwelsom fod y practis yn 'Aelod arbenigol' o Gymdeithasol Ddeintyddol Prydain, ond ni welsom dystiolaeth fod unrhyw weithgareddau datblygu tîm wedi cael eu cynnal.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal gweithgareddau datblygu tîm, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo.**

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roedd y cofnodion yn dangos bod trafodaethau'n amrywio o ddiweddarau polisiau i dderbyn cleifion newydd a rheoli gwyliau blynyddol. Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd tîm anffurfiol hefyd yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod rheolwr y practis yn cadw cofrestr gadarn o bolisiau a bod polisiau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn. Roedd y diweddariadau hyn yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfodydd tîm.

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom fod hyfforddiant staff yn cael ei reoli'n briodol a bod rheolaeth gadarn ar bobl. Gwelsom fod rota staff yn cael ei defnyddio i sicrhau bod niferoedd priodol o staff sy'n meddu ar gymwysterau addas yn gweithio ar unrhyw un adeg.

Gwnaethom nodi bod gweithdrefn chwythu'r chwiban addas ar waith a dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym u byddent yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt bryder. Dywedodd y staff hefyd y byddent yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw bryderon.

Gwelsom fod templed cynhwysfawr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sefydlu staff yn y practis a dywedodd y rheolwyr wrthym y byddent yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran perfformiad drwy arfarniadau neu drafodaethau un i un. Gwnaethom nodi bolisi cyn cyflogi boddhaol a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau recriwtio a oedd ar waith i sicrhau bod y staff yn bodloni'r gofynion 'addasrwydd i weithio'.

Gwnaethom edrych ar gofnodion chwe aelod o staff o blith y 12 a oedd ar gael. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r holl gyrsiau hyfforddiant gorfodol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ymgymryd â

gweithgareddau dysgu a datblygu. Gwelsom fod polisi hyfforddi a datblygu cynhwysfawr ar waith i gefnogi'r staff i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn.

Yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod rhwymedigaethau proffesiynol staff wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan ddefnyddio system goruchwylio trefniadau llywodraethu briodol. Roedd yr holl wiriadau cyn cyflogi gorfodol wedi cael eu cwblhau ar gyfer staff newydd eu penodi, ond gwelsom nad oedd ffeiliau tri aelod o'r staff yn cynnwys geirdaon addas. Dywedwyd wrthym fod y staff dan sylw wedi bod yn gweithio yn y practis ers amser hir. Cawsom sicrwydd bod y gweithdrefnau recriwtio cywir bellach ar waith ar gyfer pob aelod o staff a benodwyd yn ddiweddar drwy'r dystiolaeth a welsom yng nghofnodion y staff hynny.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.**

Wrth edrych ar arfarniadau'r staff, gwelsom nad oedd tri aelod o'r staff wedi cael arfarniad yn ddiweddar. Dywedodd y staff wrthym fod y rhain wedi'u trefnu ac y byddent yn cael eu cynnal yn ystod y tri mis nesaf.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau bob blwyddyn.**

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**

Gwelsom fod system gadarn ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth. Gwelsom ffurflenni adborth wrth y dderbynfa a byddai adolygiadau gwasanaeth cwsmeriaid yn cael eu hanfon at gleifion i'w cwblhau ar-lein ar ôl cael triniaeth. Gwelsom hefyd lyfr wrth y dderbynfa i gofnodi unrhyw adborth llafar gan gleifion.

Gwelsom adran “dywedoch chi, gwnaethom ni” ar yr hysbysfwrdd yn y dderbynfa er mwyn ymateb i adborth gan gleifion. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod yn trafod adborth yn ystod cyfarfodydd tîm ffurfiol a bod adborth yn cael ei fonitro'n wythnosol yn ystod cyfarfod staff anffurfiol.

Gwelsom fod y weithdrefn gwyno yn gyson â Gweithio i Wella a bod cleifion yn cael ymateb i unrhyw gŵyn mewn modd amserol. Gwnaethom nodi bod rheolwr y practis wedi'i enwi yn y weithdrefn gwyno a oedd ar gael i'r cleifion wrth y dderbynfa. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y weithdrefn hon yn cyfeirio at Llais, y gwasanaeth eirioli dros gleifion a ffurfiwyd yn ddiweddar.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y weithdrefn gwyno ei diweddaru'n barhaus.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

### Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal mewn perthynas â gwastraff gofal iechyd, atal a rheoli heintiau, triniaethau radiograffig a chardiau cofnodi.

Roedd y practis hefyd yn cynnal archwiliadau mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd ac iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, ni welsom archwiliadau ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau na rhoi'r gorau i smygu. Dywedodd y staff wrthym y byddai'r ddau archwiliad yn dechrau cael eu cynnal ym mis Chwefror 2024.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau eu cynnal mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu.**

Gwelsom arferion da gan y staff wrth gynnal archwiliadau hyfforddi dihalogi gan ddefnyddio holiaduron staff. Gwelsom hefyd fod archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd yn cael eu cynnal.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Charsfield

Dyddiad yr arolygiad: 9 Ionawr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Charsfield

Dyddiad yr arolygiad: 9 Ionawr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom nad oedd y goleuadau brys wedi cael eu profi yn ystod y profion trydanol blynyddol. Dywedodd y staff wrthym y dylai hyn fod wedi cael ei gwblhau gan y contractwr ond ei fod, yn ôl pob golwg, wedi cael ei golli yn ystod y profion diwethaf. Cafwyd sicrwydd bod y goleuadau brys yn gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad drwy'r profion	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl oleuadau brys eu profi'n flynyddol gan dechnegydd cymeradwy.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 22 (4)	Cwblhawyd profion ar 22 Ionawr 2024 a byddant yn cael eu cynnal yn flynyddol fel rhan o'r profion trydanol cyffredinol yn y practis.	C Gowman	Wedi'i gwblhau

<p>a gynhaliwyd a'r dystiolaeth a welsom i ddangos bod y staff yn cynnal gwiriadau o'r goleuadau brys fel rhan o'u harchwiliadau diogelwch tân misol. Erbyn diwedd yr arolygiad, roedd apwyntiad wedi'i drefnu i brofi'r goleuadau brys.</p>					
<p>Ni welsom gofnodlyfr i gofnodi'r amserlen lanhau ar gyfer y baddon uwchsain.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff amserlenni glanhau'r practis eu cofnodi'n briodol.</p>	<p>Adran 13</p>	<p>Mae cofnodlyfr bellach yn cael ei ddefnyddio i gofnodi'r amserlen lanhau a'r profion wythnosol.</p>	<p>A Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Gwelsom mai dim ond ffiolau 10mg o Midazolam oedd ar gael yn y pecyn brys, yn hytrach na ffiolau 5mg neu 7.5mg, gan olygu nad oedd yn addas ar gyfer grwpiau oedran gwahanol. Er y</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dosau a symiau addas o Midazolam ar gael fel bod modd ei roi'n gyflym mewn argyfwng.</p>	<p>Adran 13 (1)</p>	<p>Mae ffiolau 5mg o Midazolam wedi cael eu harchebu drwy Wrights Cottrell ac mae ffiolau 7.5mg wedi cael eu harchebu drwy HenryShein. Mae Ffurflen Archebu Cyffuriau a Reolir wedi</p>	<p>C Gowman</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>



<p>rhoddwyd sicrwydd i ni fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol mewn perthynas â'r mater hwn, pe bai argyfwng meddygol, gallai hyn ei gwneud hi'n anodd rhoi'r dos cywir i gleifion.</p>			<p>cael ei phostio ar gyfer y ddau ac mae copïau wedi cael eu cadw'n fewnol.</p>		
<p>Gwelsom fod gwiriadau misol yn cael eu cynnal ar yr eitemau yn y pecyn brys. Mae Cyngor Dadebru'r DU yn argymhell y dylid cynnal gwiriadau wythnosol ar bob darn o gyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau eu cynnal ar yr holl gyfarpar brys yn wythnosol o leiaf.</p>	<p>Adran 13 (2) (a)</p>	<p>Mae gwiriadau wythnosol bellach yn cael eu cynnal a'u cofnodi.</p>	<p>A Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Ni welsom ddefnydd priodol o restr wirio, fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol, er mwyn</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig ddefnyddio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol fel mater o arfer da.</p>	<p>Adran 13 (1) (b)</p>	<p>Mae hyn bellach wedi'i roi ar waith yn y practis ar gyfer pob achos o dynnu dant.</p>	<p>C Gowman</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.</p>					
<p>Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn anghyflawn neu fod gwybodaeth ar goll, gan gynnwys:</p> <p>Nid oedd profion sgrinio am ganser y geg wedi'u cofnodi yn yr un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt</p> <p>Nid oedd cynlluniau triniaeth ysgrifenedig wedi'u cofnodi yn yr un o'r cofnodion perthnasol</p> <p>Gwelsom dair enghraifft lle nad oedd pecyn cymorth seiliedig ar dystiolaeth "Delivering Better Oral Health" wedi'i roi ar waith</p> <p>Gwelsom dri chofnod arall lle nad oedd</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.</p>	<p>Adran 20 (1)</p>	<p>Mae ffeiliau'r cleifion wedi'u harchwilio ac mae templedi wedi'u cyflwyno i sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau yn unol â'r gofynion rheoliadol.</p>	<p>C Gowman</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>asesiadau risg wedi cael eu cofnodi ar gyfer traul dannedd</p> <p>Nid oedd cyfiawnhad dros ragnodi gwrthfotigau wedi'i gofnodi mewn dau o'r cofnodion perthnasol.</p>					
<p>Nid oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi fel mater o drefn.</p>	<p>Adran 13 (1) (a)</p>	<p>Mae'r mater hwn wedi'i gyfleu i'r holl ddeintyddion a nyrsys er mwyn sicrhau y caiff ei wirio a'i gofnodi, ac mae templed wedi cael ei ddiwygio er mwyn tynnu sylw clinigwyr at hyn.</p>	<p>C Gowman</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod gweithgareddau datblygu tîm wedi cael eu cynnal.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal gweithgareddau datblygu tîm, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo.</p>	<p>Adran 16 (1) (a)</p>	<p>Rydym wrthi'n cwblhau Pecyn Cymorth Hunanasesu Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.</p>	<p>C Gowman</p>	<p>I'w gadarnhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024.</p>

<p>Gwelsom nad oedd geirdaon addas yn ffeiliau tri aelod o'r staff.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.</p>	<p>Adran 18</p>	<p>Roedd y tri aelod o'r staff wedi cael eu fetio drwy system gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Hefyd, nid oedd y rheolwr yn ymwybodol y dylai fod wedi cysylltu â Phennaeth ysgol un o'r aelodau o staff dan sylw gan ei fod wedi dod i'r practis am brofiad gwaith o'r coleg ac nid oedd wedi bod yn gweithio cyn dechrau'r cwrs yn y coleg. Roedd y ddau aelod arall o'r staff nad oedd eu ffeiliau'n cynnwys gwiriadau cyn cyflogi wedi bod yn ddeintyddion ers amser maith ac wedi cael eu cyflogi gan y perchennog blaenorol ar sail eu gwybodaeth</p>	<p>C Gowman</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
---	--	-----------------	--	-----------------	-----------------------

			a'u profiad clinigol yn eu cyflogaeth flaenorol. Mae llythyrau wedi'u cynnwys yn ffeiliau'r tri ohonynt i gofnodi hyn.		
<b>Wrth edrych ar arfarniadau'r staff, gwelsom nad oedd tri aelod o'r staff wedi cael arfarniad yn ddiweddar. Dywedodd y staff wrthym fod y rhain wedi'u trefnu ac y byddent yn cael eu cynnal yn ystod y tri mis nesaf.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau bob blwyddyn.		Mae hyn bellach wedi cael ei unioni ac mae pob aelod o'r staff wedi cael ei arfarniad blynyddol.	C Gowman	Wedi'i gwblhau
<b>Gwnaethom nodi nad oedd y weithdrefn gwyno yn cyfeirio at Llais, y gwasanaeth eirioli dros gleifion a ffurfiwyd yn ddiweddar.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y weithdrefn gwyno ei diweddarau'n barhaus.	Adran 21 (1)	Mae'r weithdrefn gwyno bellach yn cyfeirio at Llais ac mae cymorth adnoddau dynol ar gael drwy Agilio.	C Gowman	Wedi'i gwblhau

**Ni welsom archwiliadau ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau na rhoi'r gorau i smygu.**

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau eu cynnal mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu.

Adran 16 (1)

Cofrestrwyd dechrau archwiliadau allanol ar 01/02/24 ac mae'r rhain bellach yn cael eu cynnal ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu.

C Gowman

Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): CAROLYN GOWMAN**

**Teitl swydd: RHEOLWR COFRESTREDIG/RHEOLWR Y PRACTIS**

**Dyddiad: 11 MAWRTH 2024**